# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 12 EBRILL 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Gwanwyn a Gobaith



Tudalen 6



Tudalen 2

Ar Ddydd Sadwrn 27ain o Fawrth bu tua 25ain o gefnogwyr Yes Cymru ardal Dinbych yn dosbarthu copïau o bapur newydd y mudiad dros annibyniaeth. Llwyddwyd i ddosbarthu dros 4000 copi ar y dydd ac erbyn aeth hwn i'r wasg roedd pob tŷ yn y dref wedi cael un. Erbyn i'r Bigwn gael ei gyhoeddi bydd llawer o'r tai yn y pentrefi cyfagos wedi derbyn copi hefyd, cyfanswm o 6000 i gyd.

Mae'r papur 8 tudalen yn ddwyieithog ond gyda erthyglau gwahanol yn y ddwy iaith. Mae'r cyfranwyr yn cynnwys newyddiadurwyr megis Gareth Ceidiog Hughes o Ddinbych, pobl adnabyddus o fyd adloniant a chwaraeon a phobl o bob math o gefndiroedd yn sôn am eu rhesymau dros gefnogi annibyniaeth. Mae'r dudalen ganol yn amlinellu pam y GALL Cymru fforddio annibyniaeth.

A dyma rai o'r dosbarthwyr. Dymuna'r grŵp ddiolch i bawb fu'n helpu i drefnu, plygu, dosbarthu neu ddefnyddio'r cyfryngau i roi sylw i'r diwrnod.




Bu aelodau lleol o'r mudiad hefyd yn weithgar iawn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y dydd. Dyma rai enghreifftiau :






**Golygydd Mis Mai: Erfyl Williams**

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)
Martha Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
01745812570@uwclub.net
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

# Gair gan y Golygydd

Dwi'n siŵr bod ni i gyd yn falch o weld Y Bigwn yn ôl yn y ffurf arferol. Mae yna le i ddeunydd digidol ar y we ond nid yn lle'r rhifyn ar bapur dwi'n teimlo. Mae tipyn haws darllen rhifyn papur. Bydd rhaid i ni fel Tîm Golygyddol geisio datblygu y cynnwys ar-lein mewn ffordd wahanol o hyn ymlaen.

Mae'r cyfnodau clo wedi bod yn anodd i bawb. I rai fwy na'u gilydd wrth gwrs. Rhai wedi colli anwyliaid, rhai yn unig ac ati. Ond oes na unrhyw ddaioni wedi dod o gyfnod y pandemig. Hoffwn i feddwl fod. Gobeithio bydd bobl yn gyffredinol yn gwerthfawrogi ein gweithwyr allweddol fwy yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr yn ein siopau bwyd, gweithwyr y cyngor ac ati yn ogystal a gweithwyr iechyd a gofal. Dim gobaith i'r llywodraeth yna sydd yn San Steffan i gydnabod ein dyled iddynt mewn unrhyw ffordd werth chweil ond dwi'n siŵr y byddwn ni.

Daioni arall, efallai, yw'r defnydd o dechnoleg i hwyluso cyfarfodydd ac ati. Wrth gwrs bydd lle i gyfarfod wyneb yn wyneb eto. Mae hynny'n bwysig ond siawns na allwn ddal i gyfarfod ar-lein hefyd lle bod hynny'n addas. Mae'n arbed allyriadau carbon drwy yrru ar draws y wlad i gyfarfod, mae'n galluogi pobl na fyddai'n gallu dod i gyfarfod, am amrywiol resymau, i wneud hynny.

Deallaf fod nifer dda o bobl wedi ymuno a gwersi Cymraeg ar-lein hefyd. Mae nifer ohonynt yn bobl na fyddai wedi gallu mynychu gwersi arferol unai am eu bod yn byw mewn ardal/gwlad heb wersi Cymraeg neu achos eu sefyllfaoedd personol o ran gofal plant ac ati. Wrth gwrs mae rhai sydd wedi stopio dod i wersi Cymraeg achos nad oes ganddynt fynediad i'r we neu achos nad ydynt yn hoffi gwersi ar-lein. Bydd llawer yn colli'r cyfle i gymdeithasu a gant efo gwersi wyneb yn wyneb. Gobeithio y bydd lle i'r ddau fath o wers yn y dyfodol

Diddorol iawn yw'r datblygiad o wefan Genedlaethol ar gyfer papurau bro (Gweler erthygl yn y rhifyn hwn). Bydd yn fodd i bobl ddod o hyd i fanylion eu papur bro lleol ond hefyd yn fodd i rannu deunydd rhwng y papurau. Edrychwch am ambell gyfraniad o bapurau bro eraill yn Y Bigwn yn y dyfodol a byddwn ninnau, wrth gwrs, yn rhannu peth o'n cynnwys ni.

Dyfrig

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'
CYMRAEG

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431



Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

Y BIGWN
TRYSORYDD

Rydym yn chwilio am Drysorydd cyngynted â phosib.
Does dim gwaith golygu yn ghlwm wrth y gwaith.

Cysyllter â: -
John Geraint Jones 01745 817485
jones_john@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659 stanmaberic@hotmail.com

Y BIGWN
YSGRIFENNYDD

Rydym yn chwilio am Ysgrifennydd cyngynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.

Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745 814497ed321@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659stanmaberic@hotmail.com

# Waw – am Wawr!

Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y Gwanwyn ar y ffordd - y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi ydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r cornel gyntaf welais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm dim ond byd natur all greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau am yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr coch. O fy mlaen i rŵan roedd yr awyr yn fwy pinc ond welais i hefyd rywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (vapour trail).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n syllu ar hyn er mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais fod i'n syllu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn syllu ac yn gweld y bwa yn ffurfio. Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn i'n gallu gweld bod y coes chwith yn cyrraedd y ddaear rywle ar y traeth ond yn fwy o ddiddordeb i mi oedd ble oedd y coes dde yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y coes dde yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd cefn. Wel am lwc ynte! Mi fydda i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fydda i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fydda i'n gallu gwneud efo'r holl gyfoeth. A fydda i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau nes i blannu pum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys gorau yn y byd? Ia, dyna be wna i a bydd gwyliau yn sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn dweud.

Rywbeth i edrych ymlaen amdani ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn syllu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

"Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith cerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth dwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio bod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl yna.

Pob hwyl i ti

Twm Teg a'r Tylwyth"

Wel, chwarae teg i'r Tylwyth Teg ynte!

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

PyBj

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

TAIR CROES I'R BLAID!
Etholaeth Rhanbarth
Comisiynydd Heddlu a Throseddu
6 MAI 2021
O BLAID
CYMRU
Plaid Cymru Party of Wales
Hyrwyddwyd gan Mr M Phillips ar ran Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Llys Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

# Cofiwch Dryweryn - Cofiwch Kenya

**Wythnos Cymorth Cristnogol 10-16 Mai 2021**

Mae i godi argae er mwyn cronni dŵr gysylltiadau poenus i ni yma yng Nghymru. Nid mater o hanes ydyw chwaith; mae'n gallu brifo o hyd. Mae'r dywediad 'Cofiwch Dryweryn' yn parhau i gorddi teimladau negyddol ynom.

Pam? Am inni wybod fod gweithred anghyfiawn wedi ei chyflawni yn erbyn trigolion Cwm Celyn. Am fod corfforaeth fawr wedi sathru ar hawliau, dyheadau a theimladau pentrefwyr. Am fod dymuniad cenedl gyfan wedi ei hanwybyddu.

Mewn rhannau eraill o'r byd, fodd bynnag, mae codi argae er mwyn cronni dŵr yn weithred o gyfiawnder. A'r weithred gyfiawn honno fydd stori ganolog Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Yn Kenya, mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar y tywydd - fel y mae trwy'r byd, wrth gwrs. Ond mewn gwledydd tlawd, mae'r effeithiau yn llawer gwaeth. Arferai'r tywydd fod yn rhagweladwy, oedd yn caniatáu i'r ffermwr hau a medi yn dilyn patrwm cenedlaethau. Bellach, mae patrwm y tywydd wedi newid yn fawr. Ceir sychder difrifol ac yna gyfnod o lawogydd trwm sy'n arwain at lifogydd.

Mae ffermio mewn sefyllfa o'r fath bron yn amhosibl ac mae pobl yn marw o newyn o'r herwydd.

Trwy bartner lleol mae Cymorth Cristnogol yn helpu i godi argaeau. Golyga hyn fod posibl cronni dŵr y gellid ei ddefnyddio ar adegau sych. Sef yr union reswm pam y codwyd argaeau yng Nghymru wrth gwrs. Pam felly fod codi argae mewn pentref yn Kenya yn wahanol?

Codi argae gyda chaniatâd y gymuned leol y mae partner Cymorth Cristnogol. Gwneud hynny gyda'r gymuned leol, wrth i'r pentrefwyr eu hunain helpu yn y gwaith. Ac efallai yn bwysicach na dim, codi'r argae er budd y gymuned leol a wneir. Y nhw sydd berchen yr argae; y nhw sydd berchen y dŵr.

Oherwydd hyn, gweithred gyfiawn yw codi argae yn Kenya.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10-16 Mai) bydd eglwysi ar hyd a lled Cymru yn brysur yn codi arian tuag at brosiectau tebyg. Prosiectau fydd yn rhoi help llaw i bobl dlota'r byd wrth iddynt ymdrechu i godi eu hunain allan o dlodi.

Beth am ymuno yn y gweithgarwch? Cysylltwch â'ch eglwys leol i weld be sy'n digwydd yno neu ewch draw i wefan Cymorth Cristnogol am fwy o wybodaeth.

https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week



Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Cerdded Caledfryn

Mae'n siŵr fod llawer ohonoch yn gwybod bod tipyn o lwybrau cerdded yn yr ardal ac yn eu hadnabod yn dda ond mae'n bosib nad yw rhai ohonoch yn sylweddoli pa mor gyfoethog o lwybrau a hawliau tramwy ydi cyffiniau Dinbych ei hun. Mae'n bosibl cerdded llwybr newydd pob dydd heb fynd ymhellach na ychydig gilometrau o'r dre (neu ychydig filltiroedd i'r Prydeinwyr yn eich plith! ). Mae'r map yma yn dangos yr holl hawliau tramwy sydd yn yr ardal. Mae hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych. Mae mapiau hawliau tramwy hefyd i'w cael ar wefannau eraill fel footpathmap.co.uk ac ati.

Gallwch, wrth gwrs, gael map papur yr Arolwg Ordnans ond does dim rhaid.


Dewis da arall yw defnyddio ap ar eich ffôn clyfar. Bydd hwn nid yn unig yn rhoi map o'r hawliau tramwy ond hefyd yn tracio eich llwybr ac yn dangos eich lleoliad ar y map. Dim esgus wedyn os ydych chi yn crwydro oddi ar y llwybr gyda hawl tramwy. Fel arfer bydd rhaid talu i gael map manwl yr Arolwg Ordnans ar yr apiau yma ond mae'r mapiau rhad ac am ddim yn eithaf da. Dwi wedi bod yn defnyddio Viewranger. Efo hwn roedd yn bosibl tanysgrifio neu prynu nifer o gredydau i'ch galluogi i lawrlwytho rhannau o'r map. Mae mapiau manwl o'r ardal yma i gyd a nifer o ardaloedd eraill (yn cynnwys rhai yn Llydaw!) gen i arno rŵan. Mae Viewranger wedi ymuno a chwmni arall Outdooractive rŵan a mae'n debyg y gwnaf danysgrifio i hwnnw achos mae'n cynnig mapiau manwl o Brydain a gwledydd eraill yn y pris.

Dwi wedi sylweddoli bod o'n bosibl gwneud sawl cylchdaith wahanol o amgylch Dinbych i gyd. Dyma un ohonynt. Mae hon yn eithaf hir ond mae'n bosibl torri hi'n fyr mewn sawl ffordd.

1. Cychwyn wrth Felin Brwcws a cherdded dan y ffordd fawr i Ffordd Brwcws.
2. Ar ôl pasio y crochendy a'r gored yn yr afon cymryd y llwybr cyhoeddus i'r chwith sy'n pasio tu ôl (neu o flaen?) Ystrad Bach.
3. Ar Ffordd Ystrad cerdded draw i'r chwith ychydig fetrau cyn cymryd y llwybr cyhoeddus ar y dde wrth y bont.
4. Dilyn y llwybr nes dod allan nid nepell o'r Ysbyty Meddwl.
5. Cerdded tuag at yr Ysbyty ond yna troi ar hyd y lôn i'r chwith am King's Mill.
6. Cario ymlaen ar hyd y llwybr o King's Mill i'r Lawnt.
7. Yn y gwanwyn pan mae'r saffrwm yn ei flodau mae'n werth gweld y lawnt o saffrwm sydd i'w weld ar hyd dreif preifat (ond gyda hawl tramwy) ym mhen pella'r Lawnt ar y dde. Gweler llun lliw ar y clawr)
8. Yn y Lawnt gallwch gario ymlaen ar hyd y dreif preifat uchod cyn mynd drwy giatiau pren gwyrdd i ymuno a'r llwybr am Gwaenynog i wneud tro hirach ond dwi am awgrymu anelu'n ôl am y dre am rhyw 200m cyn cymryd llwybr ar draws y cae i Galch Hill.
9. Ger Galch Hill cymryd y llwybr am Bencoed.
10. Cerdded trwy Pencoed a dod allan ar Ffordd Llewelyn cyn cerdded ar ei hyd i ben Ffordd Gwaenynog. (neu ar gyrion ucha'r coed i ben Ffordd Gwaenynog)
11. Cerdded draw heibio Ysgol Pendref a chymryd y llwybr sy'n mynd ochr bellaf i Bryn Seion.
12. Ym mhen y stad tai byddai'n bosibl troi i'r dde a dod lawr i stad ddiwydiannol Colomendy ond unwaith eto dwi'n awgrymu cario ymlaen i goedwig Crêst Mawr. Mae'r goedwig yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.
13. Cymrwch y llwybr trwy goedwig. Dydi hwn ddim wedi ei nodi fel llwybr a hawl tramwy ond mae'n amlwg fel llwybr felly dwi ddim yn credu fod broblem.
14. Ym mhen draw'r goedwig cymrwch y llwybr sy'n dod allan wrth Plas Chambres.



15. Croeswch Ffordd y Graig a chymryd y trac gyferbyn a Plas Chambres.
16. Pan fydd y trac yn troi cymrwch y llwybr ar draws y caeau am y Grîn.
17. Yma gallwch dorri'r daith yn fyr drwy gerdded ar hyd y ffordd fawr am y dre ac ar hyd y ffordd osgoi am y Brwcws.
18. Os dymunwch ymestyn y daith gallwch gymryd llwybr i'r chwith yn y Grîn am Meusydd Brwyn. Gofalwch, mae'r llwybr yma yn gallu bod yn wlyb iawn ar adegau.
19. O Feusydd Brwyn cymrwch y llwybr i Llewenni ac yna ar hyd y trac i Fferm Kilford cyn troi am y dre ar hyd Ffordd Eglwyswen. (Dewis arall fyddai'r llwybr ochr draw i Afon Clwyd ac yna'r llwybr am Fferm Brwcws.)
20. Trowch ar hyd y llwybr sy'n mynd ger Stad tai Cae Topyn ac allan wrth Capel Brwcws a byddwch yn olwg y man cychwyn i orffen gyda pheint neu baned ym Melin Brwcws pan fyddwn a chaniatâd i wneud hynny.




## Atebion Mawrth 2021

**Ar Draws :**
7. Dyfarniad
8. Sialc
10. Pum mil
11. Priodas
12. Cwilt
14. Berwbwynt
16. Athrawon
18. Cofnodi
20. Boregodwr
21. Eglur
24. Ogofaol
25. Trelar
27. Tywyn
28. Chwarterol

**Lawr :**
1. Pylu
2. Canmol
3. Anelu
4. Sampler
5. Hirdrwyn
6. Clustnodau
9. Milwrol
13. Wythnosolyn
15. Tobogan
17. Ategolyn
19. Gwyliwr
22. Gaeleg
23. Stori
26. Agos

I

## CROESAIR EBRILL 2021



**Ar Draws :**
6. Tylluan
8. Gronyn gyda gwefr negatif
9. Galwad am gymorth
10. (a 26 ar draws) Pry llwyd (5,5)
11. George, peldroediwr o fri
12. Ar ei ben ei hun
14. Mamoliaid hedfanog nosol
17. Merch ifanc 19. Angerddol
21. Canlyniad dod â dau beth ynghyd
22. Un o dyrrau castell Dinbych
24. ee dirwy neu gyfnod dan glo
26. g 10 ar draws
27. Archesgob, neu wisg balet
28. Dyrnaid i ochr y pen
29. Cynnyrch llaeth

**I Lawr :**
1. Tarth
2. Chwit-chwat
3. Nwy, rhif atomig 10
4. Mae un o'r rhain i bob cliw!
5. Cawl o gig, tatws a llysiau eraill
7. Cwrs dwys i ddysgu iaith
8. Ymyl, ee gwely
13. Llanfihangel .....'r Glyn, ger Aberystwyth
15. Trwchus
16. Cymdeithas i warchod buddiannau gweithwyr
17. Cadnoaid
18. Balm
20. Y pedwar Sul cyn y Nadolig
22. Gorchudd gwely
23. Arwyddocâd
25. Hon a'i merched fu'n dinistrio tollbyrth
26. Costus
27. Gwisg Rhufeinig






# Ysgol Glan Clwyd

Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r papur bro, bydd ein disgyblion i gyd i fod wedi dychwelyd 'nol i'r ystafell ddosbarth ar ôl nifer o gyfnodau clo gwahanol. Roedd yr ysgol wedi bod yn agored trwy'r cyfnod ar gyfer plant gweithwyr allweddol ac roedd hyd at 50 yn mynychu'n ddyddiol. Pan ail-agorwyd yr ysgolion ar Fawrth 22ain fe ddaeth bl 11 – 13 i fewn am bron i bythefnos cyn y gwyliau, a'r blynyddoedd iau yn cael diwrnodau cyswllt, yn barod ar gyfer dychwelyd yn llawn amser ar ôl y gwyliau'r Pasg. Yn ogystal â dychwelyd yn ôl, mae'r Prawf Unllif (*Lateral Flow Test*) yn cael ei gynnig i staff a disgyblion bl 10 – 13.




Mae'r prawf yn cael ei wneud gan y staff ar nos Sul a nos Fercher. Rhaid cyfaddef nad yw'n brofiad pleserus i roi y swab yng nghefn y geg ac yna i fyny'r trwyn (ond dyna fo!) ac yna rhoi y swab mewn hylif am 15 eiliad. Wedyn, trosglwyddo 2 drop o'r hylif ar y stribed ac aros hyd at 30 munud am y canlyniad. Mae un llinell gyferbyn a C (fel yn y llun isod) yn dangos canlyniad negyddol. Pe tasa dwy linell – un gyferbyn â C ac un gyferbyn a T – yna byddai'r canlyniad yn un Positif.

**Llongyfarchiadau** i aelodau staff sydd wedi cael babis yn ddiweddar:
Hannah Roberts (Saesneg) – merch o'r enw Erin Gwenlli,
Eiddwen Jones (Swyddog Lles) – mab o'r enw Nedw
Mared Thomas (Ffrangeg) efeilliaid o'r enwau Elain a Rhodri

**Talwrn y Beirdd Ifanc**
Dros flwyddyn yn ôl, bu 6 disgybl bl 10 (ar y pryd) yn cymryd rhan mewn ymryson Talwrn y Beirdd Ifanc gyda Eurig Salisbury. Aelodau'r tîm o'r ysgol hon oedd Awen Evans, Mared Morris, Elin Chan-Gizzi, Siriol Ousey, Beca Williams, Alis Davies ac Elen Jones.
Yn ddiweddar fe gafodd ymryson goll Talwrn y Beirdd Ifanc ei ryddhau - fe wnaeth criw Glan Clwyd 'Ceiliogod Clwyd' guro o hanner marc!! □Llongyfarchiadau iddy n nhw!
Os ydych chi eisiau gwrando arno, dyma'r ddolen ar ei gyfer :
https://soundcloud.com/podlediad_clera

**Gweithgaredd Cyfnod clo**
Dros y cyfnod clo ar ddechrau'r flwyddyn hon, bu Amelia Hailes bl 7 yn brwydro yn erbyn y glaw, y gwynt a'r eira i godi mwy na £ 1,000 ar gyfer ymchwil canser.
Ymgymerodd Amelia Hales, o Prestatyn, â'r her o gwblhau dau gilometr ar bob diwrnod o Chwefror. Cafodd Amelia y syniad ar ôl gweld hysbyseb ar y teledu a gweld fod *Cancer Research UK* yn ei chanfod yn anodd cael rhoddion gan bobl yn ystod y pandemig coronafirws.
Postiodd Amelia, ar ei thudalen JustGiving: "Rwy'n gwybod bod llawer o bobl yn mynd yn wael o ganser ac mae'n newid eu bywydau am byth. Mae mam yn nyrs canser yr ysgyfaint ac yn gofalu am lawer o bobl sydd â chanser felly rwy'n gwybod pa mor drist y gall hyn fod. Rwyf hefyd yn gwybod pa mor bwysig yw ymchwil wrth iddi ddweud wrthyf am yr holl driniaethau newydd sy'n achub bywydau pobl." Da iawn ti Amelia!
**Llongyfarchiadau** i nifer o'n disgyblion ar eu llwyddiant yn y rownd sirol o Eisteddfod rithiol CFFI Clwyd. Daeth sawl enw o'r ysgol i frig y rhestr buddugwyr yn y gwaith perfformio a gwaith llenyddiaeth/creu. Go dda chi!
**Dydd Gwyl Dewi** - Cawsom ddathlu'r diwrnod gyda chyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn cwis yn seiliedig ar

SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS
Yn cyflwyno Amser i Siarad ....
Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal
NID OES ANGEN ARCHEBU LLE
Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol

Neuadd Gymunedol Llys Erw
Rhuthun
10yb–11yb
2il Mai
4ydd Gorffennaf
5ed Medi

Canolfan Gymunedol Eirianfa
Factory Place, Dinbych
10yb-11yb
20fed Mehefin
18fed Gorffennaf
15fed Awst
19eg Medi

Canolfan Gymunedol Awelon
Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
10yb–11yb
6ed Mehefin
1af Awst

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
01824 703833 (Rhuthun) neu
01745 818263 (Dinbych)

Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur

01745 812482

MALDWYN WILLIAMS

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Gymru, mwynhau fideo hwyliog o'r staff yn creu cawl cennin, a'r 6ed wedi creu fideo o gân. Roedd bore llawn o weithgareddau wedi ai drefnu ar gyfer y disgyblion.

**Sesiynau Gyrfa Cymru:** Cafodd disgyblion bl9 a bl10 gyfle i ymuno gyda Diwrnod Digwyddiadau Gyrfa a drefnwyd gan Gyrfa Cymru. Cynhaliwyd nifer o sesiynau yn rhithiol ar feysydd gwahanol o fewn byd gwaith er mwyn addysgu'r disgyblion ar ofynion gwahanol yrfaoedd.

**Fideo Dewisiadau Bl9:** Diolch i nifer o gyn-ddisgyblion, a ymadawodd â'r ysgol yn ddiweddar, am gyfrannu gair o'u profiad a gwybodaeth am eu llwybr gyrfa mewn clipiau fideo byr. Roeddent yn sôn hefyd am eu dewisiadau pynciau TGAU. Cafodd disgyblion bl9 gyfle i gael blas o'u profiad yn ystod sesiwn yn eu cefnogi wrth wneud eu dewisiadau.

**Llongyfarchiadau** mawr i Dîm Egni YGC a enillodd y wobr gyntaf ym mhrosiect hybu arloesi “The Bright Ideas Challenge” yn ddiweddar, sef cystadleuaeth wedi’i drefnu gan gwmni olew Shell. Mae erthygl am hanes llwyddiant prosiect buddugol Tîm Egni YGC i’w weld yng nghylchlythyr misol cwmni olew Shell.

Syniad arloesol Tîm Egni oedd cynllunio batri alwminiwm-aer i ddisodli generaduron a pheiriannau disel. Sylwodd Tîm Egni ar y broblem o Ddinasoedd yn ehangu a gwaith adeiladu parhaus o amgylch y byd sy’n cyfrannu at y broblem fawr o allyriad carbon sy’n ychwanegu at gynhesu byd-eang. Roedd y tîm yn awyddus i leihau’r egni a ddefnyddir i losgi tanwydd ffosil a chynhyrchu cynnyrch oedd yn defnyddio egni adnewyddadwy megis solar neu wynt.

Roedd y beirniaid wedi eu plesio yn fawr iawn gan waith paratoi, ymchwil manwl a chyflwyniad trylwyr Tîm Egni YGC.

**Ffarwelio.** Ar ddiwedd y tymor bu i ni ffarwelio a dwy aelod o staff. Mae Miss Eurgain Owen a fu yn Arweinydd cynnydd ar flwyddyn 10 sydd wedi symud ymlaen i fod yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol y Creuddyn, ac hefyd mae ein Llyfrgellydd – Mrs Helena Jones wedi ymddeol (yn gynnar) Pob dymuniad da i chi eich dwy.

**Llongyfarchiadau i gyn-ddisgyblion**

Roedd ffarmwr ifanc o ardal Treffynnon yn un o lawer a gydnabuwyd yn ddiweddar am wobr genedlaethol yn dilyn cyfnod heriol iawn i'r diwydiant. Oherwydd COFID-19 cafodd Gwobrau Dysgwr y Flwyddyn Tir Lantra Cymru Cymru sydd yn cydnabod menter, sgiliau a brwdfrydedd unigolion sy'n dilyn gyrfaoedd yn y sectorau amgylcheddol a thir eu cyhoeddi’n rithiol

Aeth enillydd Gwobr Dysgwr y Flwyddyn (20 mlynedd ac iau) i John Williams o Chwitfordd, ger Treffynnon.


Ar hyn o bryd mae'r llanc 18 oed yn astudio cwrs Amaethyddol Lefel 3, yng Ngholeg Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai. Wrth sôn am ei gydnabyddiaeth dywedodd John: “Mae yna heriau bob amser y byddaf yn eu hwynebu yn y diwydiant. Mae'n hanfodol edrych ar yr heriau hyn gyda meddwl agored a gweithio'n galed i'w goresgyn. Fel ffermwyr ifanc mae yna lawer o bethau nad ydyn ni wedi'u dysgu eto ac rwy'n credu beth bynnag yw'ch oedran, dylai ffermwr fod yn barod i “ddysgu bob amser”

**Llongyfarchiadau** i Morgan Elwy ar ennill can i Gymru 2021 hefo’i gân ‘Bach o hwne’. Can hwyliog, sydd yn aros yn eich pen ar ôl i chi wrando arni yn siwr!

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

MEIRION DAVIES A’I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor
CROESO!
‘Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch’
John Glyn Jones

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a’i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E: rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors


MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# LLYTHYR O GANMOLIAETH



Mae **Mrs Freda Pierce** yn un o breswylwyr Cartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin ac yn un o ddarllenwyr selog Y Bigwn. Roedd Freda'n byw yn Ninbych yn y 40au a'r 50au ac yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Dinbych. Mae'n meddwl y byd o Ddyffryn Clwyd.

Aeth drwy amser anodd yng Nghartref Glyn Nest yn ystod y cyfnod clo fel y gwelsom ar raglen Y Byd ar Bedwar S4C, Mawrth 10fed. eleni. Dyma'i llythyr diweddaraf i'r Bigwn:

Derbyniais yn ddiweddar ddau rifyn o'r Bigwn sef Ionawr a Chwefror 2021, bonws yn wir a digon o ddarllen diddorol fel arfer.

Erthygl **O'r Llyfrgell** dan y pennawd **Llyfrgell Dinbych** yn rhifyn Chwefror sydd yn haeddu fy sylw. Mae'r erthygl yn annog pawb i fanteisio ar y cynigion amrywiol sydd ar gael yn eich llyfrgell leol i helpu rhywun i ymlacio a diflannu i fyd arall – mae'r rhestr yn anhygoel!

Dwi'n ymateb i'r rhan **'Gwasanaeth Llyfrgell I'r Cartref'** oherwydd dyma'r gwasanaeth dwi'n manteisio arno. Dw i'n y Cartref yma yng Nghastell Newydd Emlyn ers rhai blynyddoedd rwan ac yn cael cyflenwad o lyfrau bob mis mewn 'carrier bag' deniadol o Lyfrgell Caerfyrddin. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae'r bag yn cael ei adael yn y swyddfa yma mewn cwarantîn cyn iddo gyrraedd f'ystafell. Mae'r system yn gweithio'n llewyrchus dros ben gyda'r pleser mwya'n dod i mi pan agoraf y bag yn llawn trysor o lyfrau.

Gwnewch ddefnydd o'r trefniadau sy'n cael eu cynnig os ydach chi'n sownd yn eich cartref yn ystod y clo - pob clod i'r llyfrgelloedd sy'n cynnig y manteision hyn.

Mae gennych adnoddau gwych ar stepan eich drws fel y Llyfrgell yn Ninbych ac mae'r staff yn fwy na pharod i'ch helpu bob amser.

Un o'm hoff 'mottos' yw'r un gan y diweddar Clive James,yr awdur a'r beirniad teledu treiddgar a sgrifennodd yn ei waith **'Lastest Readings'** (2015),' If you don't know the exact moment when the lights will go out, you might as well read until they do.' Waeth iddo fod wedi ychwanegu i ddal i ddarllen yn y Cyfnod Clo di-ben-draw yma hefyd!


**Freda Pierce** (cyn-lyfrgellydd)

O.N. Tybed oes yna rywun ymhlith eich darllenwyr yn cofio Llyfrgell Dinbych ar ail lawr y County Hall yn y blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd tua 1946 ymlaen? Roeddech chi'n mynd i mewn drwy ddrws trwm, tew, du yn gwynebu Bull Lane ac i fyny grisiau carreg ac yna, mewn stafell ar y chwith, roedd y llyfrgell. Roedd yr awyrgylch wastad yn dywyll, yn teimlo'n 'frown' gyda 'chydig o olau naturiol. Ond roedd y silffoedd wastad yn daclus a'r llyfrau mewn trefn.

Hyd yn oed yn y blynyddoedd anodd hynny ar ôl y rhyfel, roedd stoc ddigonol o lyfrau ymhob adran ac roeddwn wrth fy modd fel aelod yno.

Dwi'n credu mai Miss Hughes? oedd y llyfrgellydd a dwi'n cofio gofyn iddi a oedd yna siawns i mi gael swydd efo hi yn y llyfrgell ar ôl i mi adael yr ysgol. Roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Dinbych ar y pryd (1944-1951) – dwi'n mynd yn ôl dipyn!



Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr

Cwmulus https://cwmulus.org/


## Dysgu trwy dechnoleg

Dydy dysgu trwy dechnoleg mewn cyfnod o argyfwng ddim yn beth newydd! Yn 1937, bu raid cau ysgolion Chicago oherwydd polio, a derbyniodd plant y ddinas eu haddysg am dair wythnos trwy wrando ar y radio. Bu raid i'r athrawon baratoi a chyflwyno eu gwersi o'r gorsafoedd radio ac roedd athrawon eraill ar gael ar ddiwedd y llinell ffôn i ateb cwestiynau. Cyhoeddwyd amserlen y diwrnod yn y papurau newydd lleol. Ar waethaf problemau prinder radios mewn ambell i ardal, a'r angen i rieni gynorthwyo'r plant, roedd yr arbrawf yn llwyddiannus iawn. Arweiniodd yn y pen draw at sefydlu Cyngor Radio Chicago a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu rhaglenni addysgiadol ar gyfer ysgolion a thu hwnt.

## Arddangosion newydd




Dyma falf EF37A Mullard a gyflwynwyd i'r Amgueddfa yn ddiweddar. Roedd y falf yma yn ddelfrydol ar gyfer ei defnyddio mewn meicroffonau, am ei bod yn gwneud llai o sŵn cefndirol na falfiau eraill oherwydd ei chynllun cymhleth. Cafodd ei defnyddio hefyd yng nghyfrifiadur Colossus a dadgodiodd seiffr yr Almaen yn yr Ail Ryfel Byd.




Mae'r Amgueddfa hefyd wedi derbyn nifer o Flwyddlyfrau HiFi o gyfnod 1963-1979. Roedd diddordeb mewn cynhyrchu sain wedi tyfu ers yr Ail Ryfel Byd ac roedd recordiau finyl, recordiau stereo a Radio FM wedi gwella ansawdd sain. Cyhoeddwyd y blwyddlyfrau yma i roi gwybodaeth cefndirol ar atgynhyrchu sain HiFi, gan gynnwys erthyglau ac adolygiadau ar falfiau, transistorau, tiwnwyr, seinyddion, recordyddion tâp a byrddau tro. Yn wreiddiol, roedd yr holl gynhyrchwyr yn deillio o'r DU ond erbyn 1979 roedd llawer ohonynt o dramor. Dydy'r llyfrau hyn ddim ar gael yn hawdd erbyn hyn, ac maent yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer astudiaeth.

## Darlithiau

Dyma'r darlithiau nesaf yng nghyfres arlein yr Amgueddfa ynghyd â Cwmulus:

Ar 23.04.2021, bydd Lesley Bordoli yn sôn am **Sgowtio Sans Frontieres** ac yn darlunio hanes y Sgowtiaid ers eu sefydlu yn 1907, gyda'r pwyslais ar weithgareddau awyr agored, at Mudiad Sgowtio rhyngwladol heddiw, a'r pwyslais ar gyflwyno sgiliau ar gyfer y byd cyfoes.

Ynni Cymunedol Cymru

Ar 21.05.2021, bydd Grant Peisley, cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru a sylfaenydd Datblygiadau Egni Gwledig, yn sôn am **Gweithredu Cymunedol ar Newid yn yr Hinsawdd**. Bydd yn disgrifo prosiectau ynni cymunedol yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn edrych sut mae'r grwpiau cymunedol hyn yn troi eu sylw at weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Ar 18.06.2021, Dr. D. Ben Rees fydd y siaradwr a bydd yn rhoi cipolwg ar ardal Eisteddfod Genedlaethol 2022 yn ei ddarlith Gymraeg, **Tregaron – Ardal yr Eisteddfod.** Bydd yn rhoi disgrifiad byw o'r dref, gan ddechrau wrth gofgolofn Henry Richard, 1812-1888, heddychwr a gwleidydd, ac yn sôn am bobl leol dylanwadol, traddodiadau eisteddfodol a cherddorol, crefydd, Cymreictod, Cors Caron, ceffylau a'r Barcud Coch.

Croeso cynnes i bawb. Bydd y sgyrsiau yn cychwyn am 7.00 y.h. a rhaid cofrestru o flaen llaw - edrychwch ar y gwefannau uchod neu ar dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau am fanylion.

## Diolch

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru
The Federation of Museums and Art Galleries of Wales

Mae Amgueddfa Gwefr heb Wifrau yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth rydym wedi ei derbyn gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yn ystod cyfnod y pandemig. Diolch hefyd am y gefnogaeth gyffredinol ar y cyfryngau cymdeithasol a brwdfrydedd mynychwyr y darlithiau.

## Dathlu nawddsant Cymru




Er nad oes llawer o fusnesau stryd fawr ar agor ar hyn o bryd, braf iawn oedd gweld sawl un wedi addurno eu ffenestri i ddathlu diwrnod ein nawddsant.
Cynhaliwyd cystadlaethau ffenestri Dydd Gŵyl Dewi eto eleni gan Menter Iaith Sir Ddinbych, gyda chymorth Cyngor Tref Ddinbych
Dyma rhai a ddaeth i'r brig:
1af - Siop flodau Reebies,
2il - Fferyllfa Royles
3ydd - Cydradd Siop flodau Costellos a siop ffotograffiaeth Tony Griffiths
Meddai Iorwen Jones o Menter Iaith Sir Ddinbych "diolch i'r holl busnesau am gymryd rhan ac am helpu i godi calon ar gyfnod mor heriol i'r stryd fawr, diolch yn fawr "
Mae lluniau'r ffenestri i gyd i'w gweld ar dudalen facebook Menter Iaith Sir Ddinbych.

Mwy o luniau Dydd Gŵyl Dewi ar ein tudalen Facebook https://www.facebook.com/media/set?vanity=MenterIaithSirDdinbych&set=a.4138593879505677

## Llyfrau Llafar Cymraeg ar ffonau clyfar am y tro cyntaf

Am y tro cyntaf mae modd gwrando ar ddetholiad lyfrau Cymraeg ar apiau Audible ac iTunes. Mae'r Lolfa newydd ryddhau dwsin o lyfrau amrywiol Cymraeg y gellir eu mwynhau heb orfod agor llyfr na phrynu CD. Mae'r chwyldro ym mhoblogrwydd ffonau clyfar wedi arwain at dwf aruthrol yng ngwerthiant llyfrau llafar electronig drwy'r byd, ond hyd yn hyn araf bu'r ymateb yn Gymraeg.

Dywedodd Garmon Gruffudd ar ran Y Lolfa:
"Fel gwasg rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r ddiffyg darpariaeth o lyfrau llafar Cymraeg ar Audible ac iTunes ers tro ac o'r diwedd rydym wedi mynd ati i drio gwneud iawn am hyn. Am sawl rheswm gall gwrando ar lyfr fod yn brofiad mwy dymunol i rai na darllen llyfr. Yn un peth dwi'n credu bod pobl am orffwys eu llygaid ar ôl bod yn llygadrythu ar sgriniau drwy'r dydd. Ein bwriad yw cyhoeddi rhagor o lyfrau llafar dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod."

Mae'r datblygiad yma yna dilyn cyhoeddi'r cofiant Cymraeg cyntaf ar lwyfan Audible fis Tachwedd llynedd, sef hunangofiant yr arloeswr Huw Jones, sef *Dwi isio bod yn...* a recordiwyd yn arbennig ar gyfer y pwrpas yn addas iawn yn stiwdio Sain, sef un o'r cwmnïau a sefydlwyd gan Huw Jones. Recordiwyd nifer eraill o'r llyfrau gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru ac addaswyd rhai o CDau sydd eisoes ar gael.

Dywedodd Arwel Jones, Pennaeth Datblygu Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru:
"Rydym yn croesawu penderfyniad Y Lolfa i gyhoeddi amrywiaeth o lyfrau llafar newydd ac yn falch o gefnogi'r fenter. Mae'n hynod bwysig sicrhau bod gan ddarllenwyr Cymraeg ddewis da o fformatau gwahanol ac fel Cyngor Llyfrau rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid ar draws Cymru er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach."

Ymhlith y llyfrau llafar Cymraeg sydd ar Audible ac iTunes mae *Llyfr Glas Nebo* (Manon Steffan Ros), *I Botany Bay* (Bethan Gwanas), *Gwreiddyn* (Caryl Lewis), *Pantywennol* (Ruth Richards) ac *Ymbelydredd* (Guto Dafydd).

Menter Iaith Sir Ddinbych

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

Cynghorydd
cyngor sir
Mark John Young

Dinbych Isaf
- Annibynnol
S: 07825 912554
www.sirddinbych.gov.uk
E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

# Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

Mewn colofn flaenorol fe wnes i fwrw golwg dros yr adnoddau hanes sydd ar gael ar-lein er mwyn chwilota eich hanes lleol a chenedlaethol, ond y tro hwn dwi am drafod sut y gallwch gofnodi'r hanes eich hun a chreu eich darn bach o hanes, trwy gymorth offer digidol.

Y ffordd orau a mwyaf hwylus i wneud hyn yw trwy greu stori ddigidol. Beth yn syml ydi stori ddigidol ond ffilm fer yn cofnodi digwyddiad, gall fod yn gyfweliad gyda unigolyn difyr a diddorol yn trafod pob math o bynciau, yn trafod gwrthrychau/lluniau sydd o bwysigrwydd hanesyddol. Fe all fod yn hel atgofion am deulu, am gyfnod penodol mewn bywyd, yn ddigwyddiad neu'n brofiad yn y gorffennol sy'n bwysig i chi neu'r unigolyn, ble bydd arwyddocâd ehangach. Mae'r syniad o greu straeon digidol wedi bod yn boblogaidd ers rhai blynyddoedd. Dwi'n cofio bron i ddegawd yn ôl, fe roeddwn i'n mynd o amgylch neuaddau pentref yn cynnal cyrsiau straeon digidol gyda WEA Cymru. Er mwyn gwneud y gwaith, roedd gennym lond car o offer, yn cynnwys gliniaduron, recordydd sain, camera fideo proffesiynol ac ar ben hynny roedd rhaid cael y feddalwedd i olygu'r cyfan. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach mae'n bosib gwneud hyn i gyd, yn ddidrafferth gyda'ch ffôn clyfar. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a fynychodd y cyrsiau hyn yn bobl wedi ymddeol, ac yn fwy na heb, roedd ganddynt stôr eang o atgofion am eu magwraeth, yn gyfarwydd gyda'r hen enwau lleoedd neu hanes cymdeithasol yr ardal leol. Trafodwyd testunau difyr iawn yn amrywio o hanes Robin Jac neu'r Fellten Goch - y gyrrwr beic modur adnabyddus, i ffilm yn hel atgofion am dad oedd yn ganwr opera. Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yw fod gan bawb stori i'w hadrodd, ac fod yr hanesyn lleiaf yn gallu bod yn aur i haneswyr cymdeithasegol y dyfodol. Dyna pam fod creu stori ddigidol yn werthfawr tu hwnt ac mae Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Storiel ym Mangor yn ddiweddar wedi bod yn chwilio am brofiadau pobl yn y cyfnod clo. Mewn deng mlynedd, mi fydd profiadau pobl yn y cyfnod clo yn hynod o bwysig ac arwyddocaol. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfresi fel Cefn Gwlad a roddodd oriau o archif fideo i ni yn cofnodi ymweliadau Dai Jones i gartrefi gwledig dros y deugain mlynedd diwethaf - Cofnod amhrisiadwy o fywyd cefn gwlad yng Nghymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. A'r hyn sy'n wych y dyddiau hyn, fe allwch chi fod yn ymchwilydd eich hun neu'n gynhyrchydd ffilm yn cofnodi'r hanes drwy gyfweliadau gyda phobl yr ydych yn ei hystyried yn hanesyddol bwysig i'ch bro, neu i Gymru. O ran llesiant iechyd, mae'n gyfle da hefyd i hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia er enghraifft. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiadau yn rhwystr i ni allu gwneud hyn ond gydag amser, gobeithio y gallwn ddychwelyd I gyfweld a phobl wyneb yn wyneb.

Er mwyn gallu creu stori ddigidol wrth gwrs, mae angen apiau sy'n gwneud y gwaith ar eich rhan. Os mai Apple yw eich ffôn neu dabled, chwiliwch am Adobe Spark yn yr App Store a'i llwytho, neu ar gyfer ffôn neu dabled Android, chwiliwch am YouCut neu PowerDirector yn y Play Store. Mae'r apiau hyn yn gymharol hawdd iawn i'w defnyddio, ac ewch ati i arbrofi gyda hwy. Gyda'ch fideo bersonol, mae yna ddewis i ychwanegu cerddoriaeth, troslais, delweddau, geiriau testun, fideos ac mae posib golygu clipiau o fewn un ffilm. Yn PowerDirector er enghraifft, does yna ddim cyfyngiad am ba mor hir ydi'r ffilm, ond wrth gwrs, bydd yn cymryd fwy o amser i'w lwytho fel cyfanwaith wedyn i'ch ffon. Rhowch dro arni! Os ydych chi'n adnabod rhywun, efallai yn aelod o'ch teulu sydd gan stori ddifyr i'w hadrodd, ewch ati i greu stori ddigidol i roi'r hanes llafar ar gof a chadw – gellir gwneud hynny dros alwad fideo Zoom hyd yn oed! Mae yna gymaint o'n hanes llafar yn mynd yn angof, felly peidiwch ag oedi, ewch ati! Pob lwc gyda'r cynhyrchu a'r hel hanes.

Adobe Spark https://spark.adobe.com/

Power Director: tinyurl.com/3ydb32ar

YouCut https://play.google.com/store/apps/details?id=com.camerasideas.trimmer&hl=en_GB&gl=US

Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed ac angen hyfforddiant am ddim i greu stori ddigidol, mae croeso i chi e-bostio Cymunedau.Digidol@wales.coop.

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd,Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184


sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych


















**Croeso 'nôl**

**Bydd y Llyfrgell yn ailagor i'r cyhoedd ar Fawrth 29ain drwy apwyntiad. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn gwsmeriaid hen a newydd!**

Amser pori – 20 munud
Defnyddio cyfrifiadur– 45 munud
Amser astudio – 1 awr
Llungopio – 15 munud

**Byddwn yn parhau gyda'r gwasanaeth poblogaidd Archebu a Chasglu.**

Cysylltwch yn fuan, cewch fanylion llawn wrth wneud eich apwyntiad
017450816313 neu
llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk

Mae'r cynllun " Darllen yn well" yn lyfrau sy'n darparu gwybodaeth, straeon a chymorth defnyddiol ar gyfer unigolion a'u perthnasau i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u lles. Cafodd y llyfrau yma eu dewis a'u hargymell gan Weithwyr Iechyd Proffesiynol blaenllaw.

←


Mae Llyfrau Darllen yn Well ar gyfer Dementia, Iechyd Meddwl ac ar gyfer plant ar gael i'w benthyg yma o Lyfrgell Dinbych. Am fwy o fanylion cysylltwch â ni yn y Llyfrgell neu ewch i wefan reading-well.org.uk/cymru







# O'r Llyfrgell

Dyma rai o'r llyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer oedolion.




Nofel gignoeth am gyfeill-garwch a thyfu i fyny ac am oedolion sy'n ymddwyn fel plant. Mae'n cynnwys iaith gref a golygfeydd ar gyfer oedolion yn unig.





Hanes Cymru drwy'r oesoedd. Tudur Owen a Dyl Mei sy'n ein tywys drwy hanes Cymru, un cwestiwn ac un pwnc ar y tro. Mae'r gyfrol hon yn dod â'r podlediad poblogaidd rhwng dau glawr.




Cyfrol o atgofion yr aw-dures Fflur Dafydd, a fu erioed yn syllu tuag at y lloer… Mae'n gyfrol hudolus a doniol sy'n pontio rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

## A dyma lyfrau ar gyfer plant




Stori llawn cyffro, am gariad, dewrder a dyfal-barhad. Mae'r goleudy yn dywyll a thad Mali allan ar y môr yn pysgota yn y nos. A fydd Mali a'i ffrind yn gallu helpu ei thad i ddychwelyd yn ôl yn saff i'r harbwr ?




Dysga sut i fod yn arwr golchi dwylo ! Ymuna efo'r Archarwyr i ddarganfod sut mae golchi dwylo yn gywir a gofalus.




Llyfr lluniau annwyl am y cariad rhwng merch fach a'i thaid, ac am gadw'r cariad hwnnw'n fyw trwy atgofion.

## COLLI GWYRFAI

Cafodd y dref a'r cylch golled enbyd gyda marwolaeth Mr Gwyrfai Jones ar Fawrth 14eg yn dilyn cyfnod byr o salwch.

Un o Gwm-y-glo yn Arfon oedd Gwyrfai ac roedd yr ardal honno yn agos iawn at ei galon.

Cafodd yrfa ddisglair yn yr heddlu gan ddyrchafu i swydd uchel. Ar ôl ymddeol o'r llu bu'n rheolwr swyddfa gyda chwmni Swayne Johnson, y cyfreithwyr lleol. Bu'n hynod o weithgar yng Nghapel Y Fron, ac roedd yn un o'r rhai a weithiodd yn ddygn i foderneiddio'r eglwys honno o ran yr adeiladwaith mewnol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n drysorydd mawr ei barch ar gyfer cronfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022.

Roedd yn amlwg hefyd gyda Chronfa Freeman Evans a'r Clwb Rotari yn ogystal ag mewn cylchoedd eraill.

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377



TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

Erbyn i chi ddarllen hwn fe fydd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad drosodd am dymor arall. Wn i ddim amdanoch chi, ond doeddwn i ddim rhy ffyddiog am ragolygon Cymru eleni, a rhaid cyfaddef ‘mod i’n meddwl fod proffwydoliaeth Scott Quinnell a’r ddechrau’r gystadleuaeth fod Cymru am ennill y Gamp Lawn yn chwerthinllyd. A nid y fi oedd yr unig un! Ond chwarae teg i Scott, doedd o ddim yn bell ohoni ......

Dwi’n sgwennu hwn y bore ar ôl y siom enfawr o weld Cymru’n colli gafael ar y Gamp Lawn gyda symudiad ola’r gêm ym Mharis, gyda Ffrainc yn cario’r dydd o 32-30. Perfformiad gorau Cymru o’r tymor efallai, heblaw am chwarter awr ola’r gêm, ond rhaid gonbeithio rwan bydd Yr Alban yn gwneud ffafr i ni yn erbyn Ffrainc i sicrhau ein bod o leiaf yn gorffen y tymor yn Bencampwyr Ewrop!

************************

Lle fuoch chi’n gwylio gemau’r Chwe Gwlad eleni sgwn i? Does fawr o amheuaeth fod y rhan fwyaf ohonom, os nad pawb, wedi gwneud hyn yn ein cartrefi, yn ein hoff gadair esmwyth neu soffa, gyda rhywbeth gwlyb, cynnes neu oer, i gadw cwmni. Un o’r pethau dwi wedi ei golli ydy cael mynd i’r Clwb i wylio’r gemau, a cael sgwrs, peint, chwerthin, digalonni, dathlu, cwyno a rhannu bwrdd gyda rhai fel Meurig, Tim, Ken, Dei Bryn, Pete, Mike, Terry neu Wil. Mae bob un o’r rhain wedi’n gadael yn y blynyddoedd diweddar, gyda’r pedwar olaf wedi mynd o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y Clwb yn le gwahanol iawn, a llawer tlotach a thawelach, pan ddaw y cyfle i ail-ymgynnull.

Uchafbwynt bob tymor wrth gwrs ydy’r gêm fawr yn erbyn ”Yr Hen Elyn”, gyda’r Clwb dan ei sang, pawb yn morio canu “Hen Wlad fy Nhadau” a Meurig yn arfer mynnu aros ar ei draed yn ystod “God Save the Queen” gan wybod yn iawn beth fyddai’r ymateb! Un o f’atgofion melysaf ydy gwylio’r gêm yn “HQ” yn 2012. Roeddwn yn digwydd eistedd nesaf i Sais (digon clên, ac wedi priodi Cymraes!) a, gyda’r sgôr yn gyfartal 12-12 a llai na pum munud i fynd, roedd o’n canmol ail reng Lloegr, Courtney Lawes, i’r cymylau. Gydag amseru perffaith, fe gipiodd Scott Williams y bêl oddi arno fo, cicio i lawr y cae a sgorio cais i sicrhau buddugoliaeth o 19-12!

Mae’n bosib gweld y cais ar https://www.youtube.com/watch?v=j6U27bJxQyE

A beth am y gêm eleni? (Nid pawb sy’n fodlon gwylio’r gemau’n fyw. Mae un o’n cyn-Olygyddion yn gwrthod gwneud rhag ofn i Loegr ennill. Chwi o ychydig ffydd! Ond chwarae teg i Olwen, mae hi, fel ei thad o’i blaen hi, yn ddigon dewr i wneud hyn!) Pwy oedd wedi dychmygu buddugoliaeth – hollol haeddianol – o 40-24 – yn erbyn Lloegr eleni? A fedra’i ddim dychmygu Alun Wyn yn siarad efo’r dyfarnwr yn y ffordd wnaeth capten Lloegr yn dilyn y cais dadleuol cyntaf. (Yr “Alun Wyn stare” chwedlonol efallai?) Cymharwch hyn ag ymddygiad Sam Warburton, capten y Llewod yn y Prawf olaf yn Seland Newydd yn 2017. Siaradodd yn gwrtais â’r dyfarnwr (un arall o Ffrainc) a’i berswadio i gael golwg arall ar ei benderfyniad i roi cic gosb i’r tîm cartref ym munud ola’r gêm. Fe wnaeth hynny, gan ddyfarnu sgrym yn hytrach na chic gosb, a sicrhau fod y gyfres yn gorffen yn gyfartal 1-1 yn hytach na 2-1 o blaid y Crysau Duon. Hyn i gyd oherwydd cwrteisi capten o Gymru!

************************

Yn anffodus, yn oriau mân fore Gwener Mawrth 12fed, fe dorrodd rhywun i mewn i’r Clwb. Roedd ffenestr Ystafell y Pwyllgora sy'n wynebu'r maes parcio wedi ei chwalu, ond, yn ffodus, mae'n ymddangos nad oedd unrhyw ddifrod arall ac nad oedd unrhyw eiddo ar goll. Mae'r Heddlu wedi cael gwybod ac yn cadw llygad ar y Clwb, ac mae lluniau teledu cylch cyfyng wedi'u trosglwyddo fel tystiolaeth. Mae rhai arwyddion hefyd o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel o amgylch y Clwb.


Hoffai’r Clwb fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Tom Williams am fynychu'r safle yn oriau mân y bore a threfnu’r gwaith clirio a thacluso a delio â'r Heddlu. Diolch hefyd i’r cwmni “Denbigh Building Plastics” (un o hysbysebwyr ffyddlon Y Bigwn) am osod bwrdd dros dro ar y ffenest er mwyn ei thrwsio cyn gynted â phosibl.

## Y GAMP LAWN

Uchafbwynt y tymor rygbi yng Nghymru oedd y fuddogoliaeth gwbl haeddiannol a gafodd tîm Cymru yn erbyn Iwerddon yng Nghaerdydd a thrwy wneud hynny ennill y Gamp Lawn am y tro cyntaf ers 1978, ac am y tro cyntaf erioed ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad – doedd dim ond pum gwlad y tro diwetha! Mae’r chwarewyr a’r tîm hyfforddi yn haeddu ein canmoliaeth am chwarae rygbi mor wefreiddiol. Maent wedi codi calon y Genedl!



Cefnogwyr Cymru yn dathlu yn y Clwb Rygbi




## Un man canolog ar gyfer yr holl bapurau bro Cymraeg

Yn mis Mawrth 2021 lansiwyd gwefan newydd ar gyfer yr holl Bapurau Bro Cymraeg www.papuraubro.cymru. Bwriad y wefan yw creu un man canolog lle gall ddarllenwyr hen a newydd ddarganfod gwybodaeth am yr holl Bapurau Bro Cymraeg.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswllt a mwy ar gyfer pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w cymunedau. Gallwch ddefnyddio map rhyngweithiol y wefan i ddarganfod pa bapur bro sydd ym mha ardal.

Dywed Dylan Lewis, cadeirydd Papur Bro Clonc (ardal Llanbedr Pont Steffan): *"Ry'n ni wedi bod angen un o rhain ers blynyddoedd. Mae'r Papurau Bro yn gwneud gwaith anhygoel ym mhob ardal drwy Gymru, ond mae hefyd yn braf iawn cael y teimlad ein bod yn rhan o rywbeth mwy."*

Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr y Papurau Bro rannu adnoddau a chyfathrebu.

Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru [MIC]: *"Ry'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hwn yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen gyda'i gilydd a datblygu mewn cyfnod lle mae presenoldeb ddigidol mor bwysig."*

Mae perthynas adeiladol wedi ei greu rhwng Mentrau Iaith Cymru â Bro360, cynllun sy'n darparu gwefannau bro i gymunedau. Trefnwyd hyfforddiant ar y cyd gan MIC a Bro360 ar gyfer gwirfoddolwyr y Papurau Bro yn ystod mis Mawrth 2021. Dywed Lowri Jones ar ran Bro360: *"Ry'n ni'n falch bod Bro360 wedi gallu helpu papurau bro i barhau i gyhoeddi yn ystod cyfnod heriol Covid. Edrychwn ymlaen at helpu'r papurau i ddatblygu ymhellach trwy gynnig arbenigedd cwmni Golwg ym maes newyddiaduraeth annibynnol i gynnal tair sesiwn hyfforddiant i gyfranogwyr y papurau bro dros yr wythnosau nesa."*

# Bwrdd Twristiaeth Hansh yn Ninbych

Mae Dinbych wedi cael sylw gan un o'r platfformau twristiaeth enwocaf sef Bwrdd Twristiaeth Hansh. Hwre, chwifiwch y baneri, bydd twristiaid o dros y byd yn heidio yma rŵan.

Morgan Elwy oedd wedi teithio yma yr holl fordd o Danyfron i ffilmio y darn. Pwy nath adael o i fewn? O'n i'n meddwl mae ardal y Gadlas oedd Tanyfron! Ia, dyna fo, Morgan Elwy o Can i Gymru ffêm. (Llongyfarchiadau Morgan!).

Gallwch weld y clip ar YouTube yma - https://www.youtube.com/watch?v=yRQ6RaXMZ54








# Ble mae'r drewdod (Cwis)

Wyddech chi fod sawl pibell ddrewdod (Stench Pipe) yn Ninbych. Rhan o'r system garthffosiaeth yn oes Fictoria oeddynt. Pibellau yn codi o'r ddaear i ganiatáu i nwyon drewllyd ddianc o'r carthffosydd uwchlaw y bobl fuasai'n cerdded heibio. Des i o hyd i olion 10 ohonynt. 3 yn gyflawn, 4 wedi colli eu topiau, 1 efo top mwy modern a 2 fonyn yn unig. Oes na fwy? Ers tynnu'r lluniau mae un o'r rhain wedi diflannu! Mi wnâi adael i chi ddyfalu pa un. Beth am geisio dyfalu eu lleoliadau. Atebion yn y rhifyn nesaf.



1



2



3



4



5



6



7



8



9



10